

# HyBont Pen-y-bont ar Ogwr Prosiect Hydrogen Gwyrdd

## Am y prosiect

Mae **Marubeni Europower** yn datblygu cynlluniau ar gyfer cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ac ail-lenwi â thanwydd yn Ystâd Ddiwydiannol Brynmenyn, wedi'i bweru'n rhannol gan fferm solar ym Mryncethin.

Rhagwelir y bydd y cyfleuster hydrogen gwyrdd yn helpu i gefnogi strategaeth sero net Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) trwy ddarparu tanwydd carbon isel i'w ddefnyddio'n lleol, ar gyfer ei gerbydau casglu sbwriel a bysiau a gweithredwyr bysiau lleol.

Mae'r Cyngor hefyd yn archwilio'r potensial ar gyfer rhwydwaith gwres Ynysawdre, a fyddai'n darparu ffordd carbon isel a chost-ffeithiol i wresogi ysgolion a chyfleusterau cymunedol lleol.


## Digwyddiad Gwybodaeth

Mae'r Digwyddiad Gwybodaeth ar 9 Mawrth 2023 yn cael ei gynnal i roi diweddariad ar y cynlluniau ac adborth ar y themâu allweddol a godwyd.

Mae'r daflen hon yn rhoi trosolwg o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio, crynodeb o'r themâu allweddol a godwyd a'r camau nesaf.

**Ceir rhagor o wybodaeth am y themâu allweddol yn y daflen ffeithiau gyfatebol.**

Mae'r holl wybodaeth am y Digwyddiad Gwybodaeth ar gael ar wefan y prosiect: [www.hybont.co.uk](http://www.hybont.co.uk).





## Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ar y cynigion ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2022, gyda thrigolion lleol, busnesau a rhanddeiliaid yn gallu cyflwyno sylwadau tan 6 Ionawr 2023.

 **Dros 1,200**


o lythrau/taflenni wedi'u hanfon i gyfeiriadau preswyl a busnes

 **Dros 700**

o ymwelwyr unigryw â gwefan y prosiect

 **Darparodd dros 100**

o bobl adborth

 **2** ddigwyddiad galw heibio ag arddangosfa gyhoeddus

Mynychwyd gan dros **130** o bobl

Ystadegau PAC a digwyddiadau galw heibio cyhoeddus ar gyfer y cyfnod 18 Tachwedd 2022 i 6 Ionawr 2023.



## Themâu Allweddol

Roedd y themâu allweddol a godwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio yn ymwneud â'r cyfleuster hydrogen gwyrdd – lleoliad a chynllun, diogelwch hydrogen, ystyriaethau amgylcheddol, trafndiaeth a manteision cymdeithasol.

**A Rhoddir crynodeb isod. Ceir rhagor o wybodaeth yn y daflen ffeithiau gyfatebol.**

- agoswydd at ynni solar, gyda chysylltiad uniongyrchol.
- mae'r safle hefyd wedi'i ddyrannu yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer defnydd diwydiannol

Mae cynllun y safle wedi'i ddylunio'n ofalus i optimeiddio cynhyrchiant a lleihau peryglon.

## Cyfleuster hydrogen gwyrdd: lleoliad a chynllun

**Adborth:** Roedd y prif ymholiadau yn ymwneud â dewis safle, lleoliad ac agoswydd at gartrefi a busnesau, yn enwedig elfennau cynhyrchu a storio hydrogen y cyfleuster.

**Ymateb:** Ystyriwyd dros 10 safle, ond dewiswyd safleoedd Brynmenyn a Bryncethin fel yr unig rai i fodloni nifer o feini prawf allweddol. Mae hyn yn cynnwys:

- yn agos at ddefnyddwyr lleol posibl o danwydd hydrogen gwyrdd.
- potensial ar gyfer rhwydwaith gwres ardal leol ar gyfer adeiladau cymunedol yn Ynysawdre, sy'n cael ei asesu ar hyn o bryd gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## Diogelwch

**Adborth:** Er nad yw cynhyrchu hydrogen yn gysyniad newydd, mae'n newydd i'r ardal a chodwyd diogelwch cynhyrchu a storio hydrogen gwyrdd, ac agoswydd y cyfleuster i drigolion a busnesau.

**Ymateb:** Mae hydrogen, yn unol â hydrocarbonau fel petrol a nwy naturiol, wedi'i gwmpasu gan godau, rheoliadau a safonau rhyngwladol i sicrhau ei fod yn cael ei gynhyrchu, ei storio, ei gludo a'i ddefnyddio'n ddiogel. Mae wedi cael ei ddefnyddio yn y DU at amrywiaeth o ddibenion diwydiannol ers degawdau, ac mae gan y DU hanes cryf o ddisbarthu a storio nwyon hylosgi yn ddiogel.

Mae diogelwch yn hollbwysig, o ran dyluniad a gweithrediad prosiect hydrogen gwyrdd HyBont. Er mwyn atal ffrwydrad rhag digwydd byth, ac i liniaru effeithiau un pe byddai'n digwydd, mae ystod o fesurau wedi'u hymgorffori yn y dyluniad a arweinir gan ddiogelwch.

## Ystyriaethau amgylcheddol

**Adborth:** Codwyd amrywiaeth o bynciau gan gynnwys effaith weledol, effaith amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth, ansawdd aer, gwasgariad ocsigen, sŵn a pherygl llifogydd.

**Ymateb:** Ymateb: Mae'r Datganiad Amgylcheddol, a gyflwynir gyda'r cais cynllunio, yn nodi effeithiau posibl y prosiect ac yn cynnig mesurau lliniaru lle bo'n briodol. Caiff hyn ei lywio gan ganlyniadau astudiaethau ac arolygon a gynhelir ar ystod o ystyriaethau amgylcheddol, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn yr adborth.

Gweler y daflen ffeithiau am ymateb manylach i'r effaith ar y dirwedd ac effaith weledol - cymeriad, golygon, llacharedd o'r fferm solar; ecoleg, gan gynnwys manylion Arolygon Cynefin Cam 2; ansawdd aer; gwasgariad ocsigen; sŵn; a pherygl llifogydd.

## Cludiant

**Adborth:** Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau am drafndiaeth yn ymwneud â'r cyfleuster hydrogen gwyrdd a'r effaith bosibl ar Ystad Ddiwydiannol Brynmenyn yn ogystal â'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

**Ymateb:** Yn ystod y cyfnod adeiladu o 21 mis ar gyfer y cyfleuster hydrogen gwyrdd ym Brynmenyn, bydd mynediad i'r safle drwy Chilcott Avenue ar y dechrau, drwy estyniad syml i'r llwybr presennol, hyd y bydd mynediad i'r safle oddi ar Squire Drive wedi'i adeiladu. Unwaith y bydd wedi'i adeiladu, bydd Squire Drive yn cael ei ddefnyddio i gael mynediad i'r safle.



Mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a Chynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) wedi'u paratoi ar gyfer pob safle. Mae'r rhain yn nodi mesurau lliniaru disgwyliedig gan gynnwys danfoniadau graddol, trefnu traffig a chyfleusterau golchi llaid cerbydau.

Unwaith y bydd yn weithredol, bydd mynediad oddi ar Squire Drive. Rhagwelir y bydd 56 o deithiau cerbydau mawr (28 i mewn a 28 allan) – yn cynnwys bysiau unllawr, cerbydau casglu sbwriel a loriau nwyddau trwm, gan gynnwys trelars tiwb siasi sengl - a 10 symudiad staff (5 i mewn a 5 allan) bob dydd. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arwyddocaol gan y bydd llawer o'r cerbydau mawr eisoes yn defnyddio'r Ystad Ddiwydiannol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

Bydd parcio ar y safle yn y cyfleuster hydrogen gwyrdd yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion staff ac ymwelwyr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion i newid y parcio ar y stryd sydd ar gael ar Squire Drive.

## Buddion Cymdeithasol

**Adborth:** Cafwyd amrywiaeth o sylwadau am fanteision y cynigion, yn enwedig cynhyrchu ynni gwyrdd a chyfleoedd swyddi lleol.

**Ymateb:** Mae amrywiaeth o fanteision yn gysylltiedig â'r datblygiad, gan gynnwys helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a lleihau allyriadau carbon drwy ddarparu tanwydd carbon isel ar gyfer trafndiaeth a ffynhonnell wres bosibl ar gyfer adeiladau cymunedol lleol.

O bosib, gallai busnesau lleol hefyd ddefnyddio'r hydrogen a gynhyrchir ar y safle at eu dibenion eu hunain a gallai busnesau arbenigol sydd angen hydrogen gael eu 'sbarduno' gan y cyfleuster.

Bydd tua 130 o bobl yn cael eu cyflogi i adeiladu'r cyfleuster, gyda chyfleoedd cadwyn gyflenwi i fusnesau lleol. Yn ychwanegol at hyn, bydd 4/5 o swyddi arbenigol parhaol i gynnal a gweithredu'r cyfleuster.



# Camau nesaf

Gallwch weld yr holl daflenni ffeithiau, gwybodaeth gefndirol a chynlluniau ar gyfer y prosiect ar-lein drwy fynd i:

[www.hybont.co.uk](http://www.hybont.co.uk)




## Camau nesaf

Mae'r cais cynllunio i fod i gael ei gyflwyno ym Mawrth/Ebrill 2023.

Yna bydd cyfle i roi sylwadau ar y cynigion terfynol yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y disgwylir iddo gael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ebrill/Mai 2023.

## Ilinell amser prosiect dangosol



<sup>1</sup> Sefydliad Datblygu Ynni a Thechnoleg Diwydiannol Newydd (NEDO)

<sup>2</sup> Ymchwil ac Arloesi Busnes Hydrogen ar gyfer Datgarboneiddio (HyBRID)

<sup>3</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

<sup>4</sup> Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (McD)

<sup>5</sup> Yn amodol ar roi caniatâd cynllunio

**Mae Marubeni Europower yn fuddsodwr blaenllaw mewn ynni adnewyddadwy, gan ddatblygu a gweithredu prosiectau pŵer ledled y byd.**

Gan weithredu yn Ewrop ers dros 50 mlynedd, rydym wedi buddsoddi mwy na £1.5bn mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ac yn cyflogi dros 2,000 o bobl yn y DU.

Mae Marubeni wedi ymrwmo i gyfrannu at y trawsnewid tuag at gymdeithas garbon isel trwy gyflawni cymysgedd o brosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys hydrogen.

**Marubeni**  
Europower